



## CABINET – 26<sup>AIN</sup> MEHEFIN 2019

**PWNC:** ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2017-2018 AC  
ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL AR STRATEGAETH YR  
IAITH GYMRAEG 2017-2022

**ADRODDIAD GAN:** CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, ADDYSG A  
GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Er mwyn hysbysu'r aelodau a cheisio eu cadarnhad o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2018-2019 yn erbyn pedwar maes penodol o waith yr iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg.
- 1.2 Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau ar 30ain Mehefin 2019, fel sy'n ofynnol gan Safon 158 yr iaith Gymraeg.
- 1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ar y Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 ar gais y Cabinet, gweler Atodiad 1.

### 2. CRYNODEB

- 2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion yr iaith Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac yn unol â Safon 158.
- 2.2 Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2018-2019 yn cwmpasu pedwar maes allweddol gofynnol.

Manylion Gofynion i Adrodd	Rhif y Safon Perthnasol (a'r is-gymal)
<b>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</b> Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
<b>Sgiliau iaith Staff</b> Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151);	170 (2) (a) 151
<b>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b> Nifer yr aelodau o staff a fynychodd cyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);	170 (2) (b) 170 (2) (c) 152

Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).	
<p><b>Recriwtio i Swyddi Gwag</b></p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</li> <li>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd</li> <li>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol</li> <li>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</li> </ul> <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	170 (2) (ch) 154

2.3 Yn ogystal â'r uchod, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol hefyd ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022, ar gais y Cabinet pan gafodd ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2017, sydd ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiad 1.

### 3. ARGYMHELLION

3.1 Argymhellir bod aelodau'r Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol ac yn cymeradwyo cyhoeddi'r wybodaeth hon fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfio â, Safonau'r Gymraeg perthnasol.

### 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Yn unol â Safon 158 Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor, rhaid i'r Cyngor;

- Llundio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau y mae'n ddyletswydd arnynt i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
- Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau yr oedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
- Cyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan erbyn 30<sup>ain</sup> Mehefin 2019.

### 5. YR ADRODDIAD

5.1 Mae'r adroddiad blynyddol yn amlygu'r wybodaeth berfformiad canlynol;

- Cawsom 4 cwyn ffurfiol a 5 ymchwiliad ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg. O'r 4 cwyn ffurfiol a dderbyniwyd, daeth 3 o'r rhain yn ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ymatebwyd i bob un o'r cwynion o fewn terfynau amser corfforaethol a chawsant eu cadarnhau.

O'r 3 cwyn a ddaeth yn ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, caewyd 2 gan Gomisiynydd y Gymraeg gan nad oedd digon o dystiolaeth gan yr achwynydd, fodd bynnag, rydym wedi defnyddio'r cyfle i ddysgu a gwella ein gwasanaeth yn nerbynfeydd ein llyfrgelloedd. Mae trydydd ymchwiliad yn mynd rhagddo ond yn ddiweddar ymatebwyd i Hysbysiad Tystiolaeth i gael rhagor o wybodaeth ac rydym nawr yn disgwyl am ymateb a chanfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg.

- Gwelwyd cynnydd dramatig yn nifer y staff sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg o gymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Gellir esbonio'r cynnydd yn rhannol gan arolwg staff a gynhaliwyd gan Wasanaethau Pobl yn ystod haf 2017, a ofynnodd i'r staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar sail lefelau 1-5 ALTE (Cymdeithas Profwyr Iaith Ewrop). Mae'r broses gyfredol o gasglu data am sgiliau staff hefyd yn seiliedig ar lefelau sgiliau fel yr amlinellwyd yn yr arolwg staff.
- Cafwyd cynnydd pellach yn nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg, gyda ffigwr o 144, yn rhannol o ganlyniad i gyflwyno'r cwrs hyfforddiant ar-lein 10-awr am ddim sydd wedi'i gyflwyno i staff sy'n darparu gwasanaethau derbynfa. Roedd y cwrs yn targedu'n benodol wasanaethau derbynfa a enwyd o dan safonau 65 a 65A, a ddaeth i rym ar 30<sup>ain</sup> Medi 2018. Mae Ymarfer Siopa Cudd annibynnol diweddar, a gynhaliwyd gan y Fenter Iaith, wedi adrodd bod y derbynfeydd hyn yn perfformio'n dda.
- Cafodd 632 o swyddi gwag eu hysbysebu. Hysbysebwyd 6 swydd fel Cymraeg hanfodol. Hysbysebwyd 1 swydd lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg, aseswyd bod 626 o swyddi'n Cymraeg dymunol ac 1 lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg, ac roedd hyn oherwydd bod aelodau staff eraill yn y tîm yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg. Mae gan bob swydd lefel Cymraeg dymunol fel lleiafswm y gofynion.

Mae wedi dod yn amlwg bod rhai swyddi lle nad yw Gwasanaethau Pobl yn rheoli eu recriwtio, megis swyddi Prif Swyddogion a swyddi prentisiaid, ac mae hyn wedi golygu nad ydynt wedi dilyn y broses orfodol arferol o ran Asesiadau Sgiliau Iaith Gymraeg. Codwyd hyn gyda Gwasanaethau Pobl gyda golwg ar ddefnyddio'r un broses recriwtio ar gyfer pob swydd yn y dyfodol ac felly cydymffurfio â Safon 136 yn llawn. Fel awdurdod rydym wedi penderfynu y dylai pob swydd, fel lleiafswm, fod yn Gymraeg dymunol.

### **Safon 136**

*Pan fyddwch yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys –*

- (a) *bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;*
- (b) *bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;*
- (c) *bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu*
- (ch) *nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.*

- 5.2 Yn ychwanegol at adrodd ar y pedair prif faes gwaith, o fewn Atodiad 1 yr adroddiad yw'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022.
- 5.3 Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2017 gyda chais y Cabinet am adroddiad cynnydd blynyddol ar y 6 Maes Strategol. Mae angen y Strategaeth o dan Safon 145 a rhaid i'r Cyngor gyflawni Strategaeth yr Iaith Gymraeg trwy weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau yn y fwrdeistref sirol. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd gan y partneriaid a ymatebodd i'r cais am wybodaeth cynnydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cynnydd.
- 5.4 Mae nifer o feysydd lle mae gweithio mewn partneriaeth yn digwydd rhwng adrannau'r Cyngor a sefydliadau partner cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod y camau a nodir yn y Strategaeth yn cael eu darparu.

Yn adroddiad y llynedd nodwyd bod y Fforwm Iaith Gymraeg wedi sicrhau cyllid i ddatblygu llyfryn ar sut i fod yn ddwyieithog, gan roi taith o enedigaeth ar ba opsiynau sydd ar gael i gael mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ysgol er mwyn magu plant dwyieithog. Mae'r llyfryn hwn wedi'i gwblhau ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddosbarthu trwy sefydliadau partner ac adrannau perthnasol o fewn y Cyngor.

5.5 Mewn cyfarfod diweddar o Fforwm y Gymraeg, cafwyd trafodaethau er mwyn diwygio a diweddarau rhai o'r targedau, sydd eisoes wedi'u cyflawni, er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen fyw.

## 5.6 Casgliad

Mae'n amlwg o gynnwys yr adroddiad bod cynnydd, fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella o hyd. Nodwyd y meysydd hyn yn yr ymarfer Siopwr Cudd diweddar a bydd y rhain yn cael eu dilyn.

Mae rhai o'r targedau yn y strategaeth wedi'u cyflawni eisoes, sy'n dangos bod cynnydd a rhywfaint o waith da yn cael ei wneud. Bydd y targedau hyn yn cael eu diwygio a'u diweddarau gyda phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau nad yw'r targedau hynny'n nad yw wedi'u cyrraedd eto ar y trywydd cywir er mwyn cael eu bodloni yn ystod oes y Strategaeth.

## 6. TYBIAETHAU:

6.1 Ni wnaed unrhyw dybiaethau.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIÂU PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 Mae'r iaith Gymraeg yn thema drawsbynciol o'r Nodau Llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefn y Cyngor, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd a pholisïau mewnol sy'n cynnwys aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru sydd â chymunedau cydlynol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

7.1.1 Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg fel amcan cydraddoldeb strategol yn ei rinwedd ei hun, gysylltiadau uniongyrchol â nifer o bolisïau a strategaethau cyfredol eraill, o fewn y Cyngor ac o ran gweithio mewn partneriaeth.

7.1.2 Mae yna hefyd strategaethau neu reoliadau Lywodraeth Cymru y mae gwaith iaith Gymraeg y Cyngor yn cysylltu â nhw, gan gynnwys "**Mwy Na Geiriau / More Than Just Words**" (Strategaeth Iaith Gymraeg Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol), "**Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**" (Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru) a "**Ffyniant i Bawb**".

## 7.2 Cynllun Corfforaethol 2018-2023.

Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion canlynol y cynllun corfforaethol 2018-2023;

Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth

Amcan 6 - Cynorthwyo dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu lles

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Dylai'r adran hon egluro sut mae'r adroddiad yn cyfrannu at y nodau llesiant sef:-

- Cymru sy'n fwy cyfartal
  - Cymru sydd â chymunedau cydlynol
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Hirdymor – Sicrhau bod gan staff y sgiliau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog nawr ac yn y dyfodol
  - Atal – Bydd gwella gwasanaethau ac uwchsgilio staff yn sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u dewis o ran iaith, yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau ac felly'n atal cwynion ac ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.
  - Integreiddio – Drwy ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, rydym yn gwneud i bawb deimlo'n gyfartal ac yn cael eu gwerthfawrogi.
  - Cydweithio – Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i hyn ac yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg. Ceir rhagor o dystiolaeth o gydweithio â phartneriaid yn Strategaeth Pum Mlynedd y Gymraeg.
  - Cynnwys - Fel y nodwyd o dan yr adran Cydweithio, mae'n rhaid i ni gynnwys ein partneriaid er mwyn cyflawni'r Strategaeth Iaith Pum Mlynedd a'n helpu i ddarparu gwasanaethau.

## **9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

- 9.1 Cynhaliwyd asesiadau ac ymgynghoriad llawn Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth ei ddatblygu, felly ni wnaed asesiad llawn ar yr adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad yn asesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg.

## **10. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 10.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd symud yr agenda yn ei flaen yn golygu goblygiadau ariannol, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant iaith Gymraeg i staff.

Y gost o gefnogi staff i fynyachu cyrsiau i ddysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle ar gyfer blwyddyn 2018-2019, sy'n cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o dan y Safonau, oedd £3,448.38

## **11. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

- 11.1 Nid oes goblygiadau personél i'r adroddiad hwn, er bod hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg fynd yn ei flaen. Mae hyn yn berthnasol i adran 4 yr adroddiad blynyddol, sy'n canolbwyntio ar Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag.
- 11.2 Ni chaiff unrhyw swydd ei hysbysebu heb Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg.

## **12. YMGYNGHORIADAU**

- 12.1 Mae holl ymatebion yr ymgynghoriadau wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad.

## **13. PWERAU STATUDOL**

- 13.1 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 13.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Awdur: Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori ([cullima@caerffili.gov.uk](mailto:cullima@caerffili.gov.uk))

Ymgynghorwyr: Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Y Cyng, Barbara Jones, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu:  
Y Cyng. James Pritchard, Pencampwr Cydraddoldeb  
Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro  
Stephen Harris, Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro  
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg  
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl  
Kathryn Peters, Rheolwr Polisi Corfforaethol  
Lisa Lane, Swyddog Monitro Dros Dro  
Ros Roberts, Rheolwr Perfformiad

Papurau Cefndir:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020

Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2020

Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Adroddiad i'r Cabinet ar 18<sup>fed</sup> Ionawr 2017 – Strategaeth y Gymraeg 2017-2022

Dogfennau Canllaw Amrywiol

*(Mae'r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth ar Borthol y Fewnwyd ac ar dudalennau perthnasol y rhyngwyd ar ddolen [www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb](http://www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb))*

Atodiadau:

Atodiad 1 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018-2019

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018-2019

Paratowyd yn unol â gofynion y



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

30<sup>ain</sup> Mehefin 2019

A greener place  
Man gwyrddach



## Cynnwys

<b>Adran</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>1. Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu</b>	<b>3</b>
<b>2. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</b>	<b>11</b>
<b>3. Sgiliau Iaith Staff</b>	<b>17</b>
<b>4. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</b>	<b>22</b>
<b>5. Recriwtio i Swyddi Gwag</b>	<b>24</b>
<b>Atodiad 1</b>	
<b>Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth y Gymraeg 2017-2022</b>	<b>25</b>



## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn ar gyfer 2018-2019 yn cynnwys y pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac mae'n dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac i aelodau'r staff.

Manylion Gofynion i Adrodd	Perthnasol Rhif y Safon ( <i>ac is-gymal</i> )
<p>Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd</p> <p>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioc yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaid â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.</p>	147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)
<p>Sgiliau Iaith Staff</p> <p>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151);</p>	170 (2) (a) 151
<p>Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Gymraeg</p> <p>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);</p> <p>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152).</p>	170 (2) (b) 170 (2) (c) 152
<p>Recriwtio i Swyddi Gwag</p> <p>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</li><li>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd</li><li>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol</li><li>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</li></ul> <p>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154);</p>	170 (2) (ch) 154

Daeth 5<sup>ed</sup> Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ben ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2016 ac mae wedi'i ddisodli gan ymrwymiad yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 diweddaraf y Cyngor. Mae pedwar o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys yn benodol materion y Gymraeg, sef:

Amcanion Cydraddoldeb Strategol 4	-	Gwella Mynediad Cyfathrebu
Amcanion Cydraddoldeb Strategol 6	-	Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
Amcanion Cydraddoldeb Strategol 10	-	Amrywiaeth yn y Gweithle
Amcanion Cydraddoldeb Strategol 11	-	Cydymffurfiaeth Gorfforaethol

Mae Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon ynghylch Safonau'r Gymraeg ers mis Ionawr 2014, ac wedi derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n llawn ynghylch cynnydd cyn y dyddiad Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, sef 23ain Ionawr 2017.

Caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei gyhoeddi ar-lein erbyn 30<sup>ain</sup> Mehefin 2019.

Mae hefyd ar gael i'w lawrlwytho mewn fformat pdf ar wefan y Cyngor ar y dudalen benodol ar yr iaith Gymraeg ar [www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb](http://www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb).

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.  
This report is available in English, and in other languages or formats on request.**

# 1. Cydymffurfio â'r Safonau

Ers i Safonau'r Gymraeg gael eu cyflwyno ar 30<sup>ain</sup> Mawrth 2016 rydym wedi datblygu Rhaglen Waith Cydymffurfio er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a darparwn yn unol â'r Safonau, bod staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau a bod ganddynt y sgiliau iaith gofynnol lle y bo'n bosibl.

Crynohir y Rhaglen Waith Cydymffurfio isod:

## **Gohebiaeth Safonau 4, 5 a 7**

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â gohebiaeth sy'n gorfod bod yn ddwyieithog os nad ydym yn gwybod dewis iaith, neu'n anfon llythyrau at nifer o bobl ynglŷn â'r un pwnc. Rhaid i ni sicrhau bod y papur pennawd hefyd yn cydymffurfio.

### **Camau a gymerwyd**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Gohebiaeth Gyffredinol – 15/05/17
- Tempel papur pennawd newydd eisoes ar gael

## **Ffôn – Safonau 8, 9, 11, 14, 16, 17, 19, 20, 21 a 22**

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sut rydym yn delio â galwadau ffôn a bod cyfarchiad dwyieithog yn cael ei roi. Rhaid i staff feddu ar y sgiliau iaith perthnasol i ddelio â galwadau yn Gymraeg, ac os nad ydynt yn gallu, eu bod yn gwybod pwy yw'r siaradwyr Cymraeg sy'n gallu delio â'r mater, a sut i drosglwyddo galwadau. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i ddarparu'r wybodaeth bwnc-benodol, gellir cysylltu'r alwad â rhywun nad yw'n siarad Cymraeg.

Rhaid i ni ddatgan, pan rydym yn cyhoeddi prif rifau ffôn, ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg a rhaid i'n holl systemau ffôn awtomataidd fod yn ddwyieithog.

### **Camau a gymerwyd**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Cyfarchion dros y Ffôn – 15/05/17.
- Darparu hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn gallu rhoi cyfarchion sylfaenol a darparu gwasanaethau derbynfa yn ein prif leoliadau
- Cyhoeddir croeso i alwadau ffôn Cymraeg yn *Newsline* ers rhifyn mis Mehefin 2017
- Darparwyd staff â stondinau desg sy'n Ganllawiau Cyfeirio Cyflym – 15/05/17
- Mae negeseuon ffôn awtomataidd ar gyfer manau gwasanaeth wedi'u recordio'n ddwyieithog

## **Cyfarfodydd - Safonau 24, 24A, 27, 27A, 27D, 29 a 29A**

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sut yr ydym yn gwahodd unigolion i gyfarfodydd a phryd y mae'n rhaid i ni gynnig cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Os dymunant, rhaid i ni wedyn drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso'r cyfarfod hwnnw.

Os ydych yn gwahodd mwy nag un unigolyn i gyfarfod, rhaid gofyn i bawb a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, os bydd o leiaf 10% yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, yna rhaid trefnu cyfieithu ar y pryd. Os yw'n llai na 10%, rhaid rhoi gwybod i'r

siaradwyr Cymraeg nad yw'n ofynnol ar yr achlysur hwn i ni fodloni eu cais i siarad Cymraeg yn y cyfarfod.

Os bydd y cyfarfod â'r unigolyn o ran ei les, a'i fod yn dymuno siarad Cymraeg, yna rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn i'r unigolyn allu siarad yn ei ddewis iaith. Rhaid cynnal cyfarfodydd lles gyda chyfieithu ar y pryd os bydd unrhyw un sy'n mynychu wedi gofyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Cyfarfodydd ag Unigolion – 15/05/17
- Wrth wahodd unigolion i gyfarfod mae'n ofynnol i wasanaethau gynnwys brawddeg safonol yn gofyn am eu dewis iaith ac os ydynt yn dymuno defnyddio neu gynnal y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg

### **Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus – Safonau 30, 31, 32, 33, 34, 35 a 36**

Rhaid i unrhyw hysbyseb neu hysbysiad sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfod cyhoeddus/digwyddiad/gweithgaredd ddatgan y gellir defnyddio'r Gymraeg.

Rhaid i unrhyw wahoddiad i gyfarfod cyhoeddus/digwyddiad/gweithgaredd cael ei anfon yn Gymraeg ac yn Saesneg a rhaid i'r holl ddeunydd a arddangosir yn y cyfarfod cyhoeddus fod yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf.

Rhaid gofyn i unrhyw siaradwyr mewn cyfarfod cyhoeddus/digwyddiad/gweithgaredd a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg, ac os felly rhaid trefnu cyfieithu ar y pryd. Rhaid hysbysu ar lafar i bawb sy'n mynychu cyfarfod cyhoeddus/digwyddiad/gweithgaredd bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a bod cyfieithu ar y pryd ar gael i'r di-Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Cyfarfodydd Cyhoeddus – 15/05/17
- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Trefnu Digwyddiad – 15/05/17
- Mae Fframwaith Cyfieithu a Dehongli ar waith ers mis Mai 2017 ar gyfer ceisiadau cyfieithu ar y pryd

### **Agendâu, Cofnodion a Dogfennau Cyhoeddus eraill – Safonau 41 a 47**

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â chynhyrchu'r dogfennau canlynol yn Gymraeg;

- Agendâu a chofnodion ar gyfer y Cabinet
- Agendâu a chofnodion ar gyfer y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a'r Cyngor Llawn

Yn ychwanegol os cynhyrchir dogfen er defnydd y cyhoedd, ac nad yw'n cael ei dal gan unrhyw safon arall, rhaid ei chynhyrchu yn Gymraeg os yw'r testun yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg e.e. adroddiadau sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg.

### **Camau a gymerwyd**

- Mae llunio agendâu a chofnodion ar gyfer y Cabinet, Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a'r Cyngor Llawn yn Gymraeg yn arfer cyfredol

### **Cyhoeddiadau Cyffredinol – Safonau 42, 43, 44, 45, 46 a 47**

Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â'r canlynol sy'n cael eu cynhyrchu yn Gymraeg os ydynt ar gyfer y cyhoedd neu er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd;

- trwyddedau, tystysgrifau, llyfrynnau, taflenni, pamffledi, cardiau, polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, codau ymarfer neu unrhyw reolau sy'n berthnasol i'r cyhoedd

Rhaid i unrhyw ddatganiad yr ydym yn ei roi i'r wasg fod yn ddwyieithog oni bai bod y datganiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod "argyfwng" fel y'i diffinnir yn adran 1 o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Os cynhyrchir dogfen er defnydd y cyhoedd, ac nad yw'n cael ei dal gan unrhyw safon arall rhaid ei chynhyrchu yn Gymraeg os, yw'r pwnc dan sylw yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau o'r gynulleidfa yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg.

### **Camau a gymerwyd**

- Mae cynhyrchu trwyddedau, tystysgrifau, llyfrynnau, taflenni, pamffledi, cardiau, polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, codau ymarfer neu unrhyw reolau sy'n berthnasol i'r cyhoedd, yn Gymraeg, eisoes yn arfer cyfredol
- Mae'r Tim Cyfathrebu yn ymwybodol o'r datganiadau cyhoeddus a gaiff eu cyhoeddi

### **Dogfennau Ymgynghori - Safonau 44, 91, 92 a 93**

Rhaid i'r dogfennau ymgynghori fod yn ddwyieithog a rhaid iddynt ystyried a gofyn am sylwadau arnynt;

1. Pa effeithiau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, y byddai'r cynnig yn ei gael ar; neu
2. sut y gellid datblygu neu ddiwygio'r cynnig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy positif ar; neu
3. sut y gellid datblygu neu ddiwygio'r cynnig fel na fyddai'n cael effeithiau negyddol, neu fel y byddai'n cael effeithiau negyddol llai ar;
  - a) y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
  - b) beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

### **Camau a gymerwyd**

- Mae Canllawiau Ymgynghori a Monitro ar waith ac yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn cael ei diwygio ar hyn o bryd
- Mae Rhestr Wirio'r Iaith Gymraeg wrth Ymgynghori yn cael ei chreu fel bod swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau
- Mae cwestiynau wedi'u gwreiddio yn y broses asesu effaith yn gofyn a yw ystyriaethau wedi cael eu rhoi i'r Gymraeg yn y broses ymgynghori

## **Gwefan, Cyfryngau Cymdeithasol a Dyfeisiau Electronig - Safonau 52, 56, 58 a 60**

Rhaid i bob tudalen ar wefan y Cyngor fod yn ddwyieithog, yn gwbl weithredol ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r tudalennau Saesneg. Rhaid i'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar y tudalennau fod yn ddwyieithog.

Rhaid i unrhyw gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n perthyn i'r Cyngor beidio â thri y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhaid i beiriannau hunanwasanaeth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg e.e. peiriannau tocynnau parcio.

### **Camau a gymerwyd**

- Mae archwiliad o'r wefan gyfan a'i swyddogaethau yn cael ei gynnal. I'w gwblhau erbyn dechrau Gorffennaf 2019
- Mae'r canllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys adran ar Safonau'r Gymraeg a gofynnwyd i'r rhai â chyfrifon gydnabod y gofynion i gydymffurfio. Bydd y gwaith monitro yn dechrau cyn bo hir a bydd y rhai nad ydynt yn cydymffurfio yn cael eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau
- Mae peiriannau parcio yn cynnig dewis iaith i bobl

## **Arwyddion Cyhoeddus – Safon 62, 67, 70, 141, 142 a 143**

Rhaid i arwyddion newydd ac adnewyddedig fod yn ddwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhaid lleoli'r Gymraeg felly mae'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

### **Camau a gymerwyd**

- Mae arwyddion newydd ac adnewyddedig yn cydymffurfio
- TAFLEN FFEITHIAU – Arwyddion – 15/05/17
- Dychwelir yr holl waith cyfieithu a dderbynnir yn y fformat cywir. Mae hyn yn arfer cyfredol

## **Ymwelwyr i Adeiladau – Safonau 64, 65, 65A, 67 a 68**

Rhaid darparu gwasanaeth dwyieithog yn y dderbynfa yn adeiladau canlynol y Cyngor rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

- Tŷ Penallta
- Llyfrgelloedd Bargod, Rhisga, Rhymni, Coed Duon, Caerffili ac Ystrad Mynach;
- Canolfan Croeso Caerffili;
- Maenordy Llancaiach Fawr;
- Gwasanaethau Cofrestru;
- Canolfannau Hamdden Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga.

Rhaid arddangos arwyddion ar dderbynfeydd sy'n datgan y gellir defnyddio'r Gymraeg. Rhaid i staff sy'n siarad Cymraeg mewn derbynfeydd arddangos bathodyn yn datgan eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### **Camau a gymerwyd**

- Cwblhawyd y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff yn y dderbynfa yn Nhŷ Penallta a'r Ganolfan Gyswllt. Mae mwy o hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ynghyd â chymorth parhaus
- Cymraeg Gwaith - cwrs ar-lein 10-awr wedi'i gyflwyno i staff ers mis Medi 2018
- Mae pob lleoliad a restrwyd o dan Safon 64 wedi cael y poster i'w arddangos yn y dderbynfa yn nodi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael
- Gwybodaeth ar gael i staff ar Borthol yr Uned Polisi Corfforaethol
- Mae pob dysgwr a siaradwr Cymraeg wedi derbyn lanyard neu fathodyn Iaith Gwaith

### **Dyfarnu Grantiau – Safonau 71, 72 a 72A**

Rhaid i ffurflenni cais am grantiau fod yn ddwyieithog. Rhaid i unrhyw beth a gyhoeddir am grant ddatgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae hyn yn cynnwys amserlenni a bennwyd ar gyfer asesiad ac ati.

### **Camau a gymerwyd**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff – Grantiau – 15/07/17
- Edrychodd Adolygiad Thematig Comisiynydd y Gymraeg ar y broses o ddyfarnu grantiau. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn cydymffurfio ac mae'r rhai nad oeddent yn cydymffurfio wedi'u cynghori yn unol â hynny. Dywedwyd wrthynt hefyd i ofyn am ddewis iaith yr ymgeisydd ac i gyhoeddi'r ffurflenni yn yr iaith honno neu i'w cyhoeddi'n ddwyieithog

### **Cyrsiau Addysg - Safonau 84 ac 86**

Rhaid i gyrsiau addysg gael eu cynnig yn Gymraeg oni bai bod asesiad o dan Safon 86 wedi'i gynnal.

### **Camau a gymerwyd**

- Gofyn i bobl a ydynt yn dymuno derbyn y cwrs yn Gymraeg ar adeg cofrestru neu holi ac yna asesu'r galw am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

### **Systemau Sain Cyhoeddus - Safon 87**

Rhaid i bob systemau sain cyhoeddus fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

### **Camau a gymerwyd**

- Mae'r negeseuon Prawf Larwm Tân a Munud o Ddistawrwydd yn ddwyieithog
- Gwacáu mewn Argyfwng – Saesneg yn unig
- Gofynnwyd i Dwristiaeth edrych ar eu rhaglen ddigwyddiadau a'r angen i sicrhau bod pob cyhoeddiad cyhoeddus yn ddwyieithog, Cymraeg yn gyntaf
- Mae negeseuon cyfarch cyhoeddus awtomataidd Llyfrgelloedd yn cydymffurfio'n llawn

## **Llunio Polisi - Safonau 88, 89 a 90**

Rhaid i bolisiau newydd, diwygiedig neu sydd wedi'u hadolygu ystyried yr effaith y bydd y polisi'n ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ni ddylai drin y Gymraeg yn llai ffafriol.

### **Camau a gymerwyd**

- Diweddarwyd y Canllawiau o ran Goblygiadau Cydraddoldeb mewn Adroddiadau Pwyllgor i gynnwys cyfeiriad at y Gymraeg

## **Tudalennau Mewnrwyd / Rhyngrwyd - Safonau 122 a 124**

Rhaid i hafan y fewnrwyd fod yn ddwyieithog, dylai weithredu'n llawn a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i dudalennau Saesneg nodi bod tudalen Gymraeg gyfatebol ar gael, gyda dolen os yw'n berthnasol.

### **Cam Gweithredu**

- Nid yw mewnrwyd ddwyieithog yn arfer cyfredol. Mae tudalen benodol ar yr iaith Gymraeg ar Borthol yr Uned Polisi Corfforaethol er mwyn i staff gael mynediad at wybodaeth

## **Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Chyfathrebu â Staff – Safonau 128, 129, 130, 133, 134 a 135**

Mae'n rhaid i ni ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff os yw'n cael ei ddarparu yn Saesneg ar; recriwtio, rheoli perfformiad, cwynion, disgyblu, cynefino, delio â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch, ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, cyfweliadau, cwynion ac yn ystod gweithdrefnau disgyblu.

Rhaid rhoi cyfleoedd i staff mewn oriau gwaith i dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol ac i weithwyr sy'n rheoli eraill dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Rhaid i ni roi gwybodaeth i weithwyr newydd am yr iaith Gymraeg a thestun neu logo i weithwyr sy'n siarad Cymraeg eu defnyddio mewn llofnodion e-bost sy'n dangos eu bod yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg, boed yn rhugl neu fel dysgwr.

Rhaid i fersiwn Cymraeg o fanylion cyswllt mewn negeseuon e-bost a negeseuon Allan o'r Swyddfa fod yn Gymraeg hefyd.

### **Cam Gweithredu**

- TAFLEN FFEITHIAU ar gyfer staff - Adnoddau Dynol - 15/05/17
- Os bydd unrhyw geisiadau am hyfforddiant yn cael eu derbyn byddem yn gweithio gyda chynghorau cyfagos i wneud cyrsiau'n hyfyw
- Cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg flynyddol ers 1999, sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau gwahanol i staff, sy'n cynnwys cyrsiau ar-lein, hunan-astudio, preswyl ac wythnosol. Mae 144 o ddysgwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod 2018-2019
- Dylid cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg mewn pecynnau cynefino adnoddau dynol
- Mae'r Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori yn rhan o raglen sefydlu'r gwasanaethau cymdeithasol i ddechreuwyd newydd
- Mae TG wedi rhoi llofnod dwyieithog awtomatig i bob aelod o staff ar gyfer e-byst



- Nid yw TG wedi gallu cyn-boblogi neges e-bost ddwyieithog, felly crëwyd stondinau ddiwyieithog i bob aelod o staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i sicrhau bod eu neges Allan o'r Swyddfa yn ddwyieithog.

### **Arwyddion Gweithle – Safonau 141, 142 a 143**

Rhaid i arwyddion newydd ac adnewyddedig fod yn ddwyieithog a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a rhaid gosod y Gymraeg fel mae'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

### **Cam Gweithredu**

- Mae pob arwydd sy'n wynebu'r cyhoedd yn ddwyieithog ac os cynhyrchir rhai newydd neu adnewyddedig mae'r Gymraeg yn gyntaf

### **Strategaeth y Gymraeg – Safonau 145 a 146**

Mae'n rhaid i ni gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5-mllynedd ar y wefan sy'n nodi sut rydym yn cynnig hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'i defnydd yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Rhaid i'r Strategaeth gynnwys –

(a) targed (o ran y ganran o siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi strategaeth (neu gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig).

### **Camau a gymerwyd**

- Lansiodd y Strategaeth yn Ffiliffest 2017 gan y Gweinidog dros Addysg Gydol Oes a'r Gymraeg
- Datblygwyd cynllun gweithredu ar y cyd â phartneriaid mewn mudiadau Cymraeg lleol, drwy Fforwm y Gymraeg (gweler Atodiad 1)
- Cyflwynir adroddiad cynnydd bob blwyddyn i'r Cabinet
- Mae angen diwygio a diweddarau'r targedau a osodwyd yn wreiddiol, gan fod rhai wedi'u bodloni eisoes. Bydd y gwaith diwygio a diweddarau yn cael ei wneud yn ystod 2019
- Mabwysiadwyd y Strategaeth gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili ym mis Rhagfyr 2018

### **Rhoi Cyhoeddusrwydd i Gydydffurfiaeth – Safonau 161, 167 a 163**

Rhaid i ni gyhoeddi dogfen ar y wefan sy'n datgan y safonau llunio polisi y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy a sut y gwnawn hynny a rhaid i hwn fod ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Rhaid i ni gyhoeddi dogfen ar y wefan sy'n nodi'r safonau gweithredu y mae'n rhaid inni gydymffurfio â hwy a sut y gwnawn hynny a rhaid i hwn fod ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Rhaid i ni gael trefniadau ar waith i oruchwylio cydydffurfiaeth â'r safonau llunio polisi, cyhoeddi'r trefniadau ar y wefan a sicrhau bod y ddogfen ar gael ym mhob swyddfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

### **Camau a gymerwyd**

- Gweler Adroddiad Hysbysiad Cydymffurfiaeth CBSC 30.03.16 ar y wefan
- Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio ar y wefan er mwyn caniatáu i unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd gael eu trin drwy gael mynediad i'r rhyngwrwyd ar eu rhan. Mae hyn wedi cael ei drafod yn dilyn cyfarfod gyda Gwasanaethau Cwsmeriaid

### **Cwynion – Safonau 147, 148, 149, 156, 158 (2), 162, 164 (2), 168 (a), 170 (2) (d)**

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

### **Camau a gymerwyd**

- Adroddir yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor erbyn 30<sup>ain</sup> Mehefin bob blwyddyn

### **Sgiliau Iaith Staff – Safonau 151 a 170 (2) (a)**

Mae'n rhaid i ni gadw cofnod (yn dilyn asesiad) o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i gynnwys y lefel sgiliau.

### **Hyfforddiant Iaith Gymraeg – Safonau 152, 170 (2) (b) a 170 (2) (c)**

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a chanran cyfanswm nifer y staff a fynychodd gwrs Cymraeg.

### **Recriwtio – Safonau 154, 170 (2) (ch) a 154**

Rhaid cadw cofnod o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
- (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

### **Camau a gymerwyd**

- ***Sgiliau Iaith Staff, Darpariaeth Hyfforddiant a Recriwtio Iaith Gymraeg:*** Caiff y rhain eu hadrodd arnynt yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor erbyn y 30<sup>ain</sup> Mehefin bob blwyddyn

## 2. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd

Mae **Amcan Cydraddoldeb Strategol 11 - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol** yn ymrwymo'r Cyngor i fonitro cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg, a chyhoeddwyd canllawiau ar gyfer staff ar Borthol y staff ac ar y wefan allanol, sy'n rhoi manylion ynghylch sut y dylai staff ymdrin â'r materion hyn.

Yn ystod 2018-2019, derbyniwyd **4** cais am wasanaeth a **4** cwyn yn ymwneud â'r Gymraeg. Ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn terfynau amser a chadarnhawyd pob un. Roedd 1 o'r 4 cais am wasanaeth yn ymwneud â marciau ffordd a'r 3 arall yn ymwneud ag arwyddion.

### Diffiniadau Cyffredinol

Mae cwynion corfforaethol yn gwynion o ganlyniad i fethiant o ran proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai, yn y pen draw, gael eu hanfon at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu at Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft.

Caiff materion cod ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff eu trin drwy gyfrwng prosesau Adnoddau Dynol mewnol. Fodd bynnag, mae cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhywfaint o hybrid, oherwydd gall methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod o staff tuag at grŵp penodol, er enghraifft.

### Cwynion yn ôl Cyfadran

CYFADRAN	IAITH GYMRAEG
Prif Weithredwr	0
Gwasanaethau Corfforaethol	1
Cymunedau	3
Gwasanaethau Cymdeithasol	0
<b>CYFANSYMLIAU</b>	<b>4</b>

### Themâu ac Amserlenni'r Cwynion

Roedd pob un o'r **4** cwyn ynghylch y Gymraeg yn ymwneud â thorri Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys methu â darparu gwasanaethau Cymraeg mewn llyfrgelloedd, cydymffurfio o ran peiriannau parcio ceir a meysydd gwasanaeth heb staff sy'n siarad Cymraeg i ddelio ag ymholiadau. Atebwyd pob un o'r **4** cwyn a gafwyd o fewn yr amserlenni corfforaethol.

## Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg

Yn 2018-2019 cawsom **5** Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg newydd, a chafodd **1** a oedd yn parhau o'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac mae manylion y rhain wedi'u rhestru ar y tudalennau canlynol;

### Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt ers 2017-2018

#### CSG304

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y cafodd ffurflen adrodd Cyngor a Chymorth Gwybodaeth ar-lein ar wefan y cyngor ei chyflwyno yn Gymraeg ac nad yw wedi derbyn ymateb. Hefyd bod rhywfaint o'r testun ar y dudalen we yn uniaith Saesneg.</li> </ul>	<p>Penderfynodd yr ymchwiliad...</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Safon 1</b> – Ni wnaeth CBSC fethu â chydymffurfio â Safon 1 yn yr achos hwn. Sail y penderfyniad oedd bod y Cyngor wedi darparu ymateb Cymraeg i ohebiaeth ddyddiedig 22/12/2017 yn unol â gofynion Safon 1</li> <li><b>Safon 52</b> – Methodd CBSC â chydymffurfio â Safon 52 ar y sail bod testun uniaith Saesneg yn ymddangos ar un o dudalennau Cymraeg y Cyngor ar y we yn Rhagfyr 2017</li> </ul>	<p>Ar 30/10/18 cawsom adroddiad arfaethedig oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg yn amlinellu penderfyniad yr ymchwiliad hwn a'r camau pellach y mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â hwy.</p> <p>Mae'r camau gweithredu pellach fel a ganlyn;</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Cynnal adolygiad o'r wefan er mwyn sicrhau bod testun pob tudalen o'r wefan ar gael yn Gymraeg.</li> <li>Cymryd camau i sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gynnwys y wefan yn ymwybodol o ofynion Safon 52.</li> <li>Paratoi a darparu canllawiau i'r staff sy'n gyfrifol am lwytho a monitro cynnwys y wefan er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safon 52.</li> <li>Darparu digon o dystiolaeth ysgrifenedig i fodloni Comisiynydd y Gymraeg ein bod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 3.</li> </ol> <p><b>Dyddiad Cau – 11.07.19</b></p>

## Ymchwiliadau Newydd 2018-2019

### CSG351

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bod gohebiaeth ddyddiedig 25/04/2018 yn ymwneud â methiant i ymateb i e-bost Cymraeg a anfonwyd at yr Arweinydd y Cyngor ar 16/10/17 ac fe'i hanfonwyd eto ar 15/12/2017, 12/03/18 ac ar 25/04/18.</li></ul>	<p>Penderfynodd yr ymchwiliad...</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Safon 1</b> – Methodd CBSC â chydymffurfio â Safon 1 yn yr achos hwn ar y sail nad oedd y Cyngor yn deall bod angen ymateb i ohebiaeth gyntaf yr achwynydd yn y Gymraeg a anfonwyd at Arweinydd y Cyngor.</li></ul>	<p>Cawsom yr adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad hwn ar 22/03/19 ac mae'r camau pellach fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau i sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg a dderbynnir gan Swyddfa Arweinydd y Cyngor yn cael ei darllen gan siaradwyr Cymraeg neu'n cael ei chyfieithu.</li><li>2. Rhaid cynnal adolygiad o'r ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd.</li><li>3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu digon o dystiolaeth ysgrifenedig i fodloni Comisiynydd y Gymraeg bod cam gorfodi 2 wedi'i gwblhau.</li></ol> <p><b>Camau wedi'u cyflawni a thystiolaeth wedi'i chyflwyno 28/05/19</b></p>

## CSG360

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bod staff llyfrgell Rhymni yn dysgu Cymraeg ond nad ydynt yn defnyddio eu sgiliau, ac yn arbennig pan roeddent yn ymweld â'r Llyfrgell.</li></ul>	<p>Ymatebodd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Gomisiynydd y Gymraeg ar 11/05/18 gan gydnabod mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth llyfrgell yn Rhymni.</p> <p>Tynnwyd sylw'r Comisiynydd at y ffaith mai'r Dyddiad Cydymffurfio ar gyfer darparu gwasanaeth derbynfa yn Llyfrgell Rhymni oedd 30/09/18. 16/04/18 oedd dyddiad y gŵyn wreiddiol; felly nid oedd Safon 64 wedi'i thorri. Esboniwyd hefyd y prosesau sydd gennym ar gyfer ymdrin ag aelod o'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Cadarnhaodd gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar 19/12/19, gan nad oedd Safon 64 yn dod i rym tan 30/09/18 nid oedd gan CBSC ddyletswydd i gydymffurfio â'r Safon ar yr adeg y cyflwynwyd y gŵyn ac felly nid oedd yn bosibl parhau gyda'r ymchwiliad.</p> <p><b>Ymchwiliad wedi cau.</b></p>

## CSG369

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• bod yr achwynydd wedi cael e-bost uniaith Saesneg gan y Cyngor yn gofyn am ganiatâd i barhau i anfon e-byst i'w gyfrif yn dilyn y newidiadau diweddar i'r gyfraith ar ddiogelu data.</li></ul>	<p>Ymatebodd y Cyngor i Hysbysiad Tystiolaeth y Comisiynydd gan egluro mai dim ond os oeddent wedi tanysgrifio i dderbyn y gwasanaeth yn yr iaith honno y gallai'r achwynydd fod wedi derbyn y neges i'w chyflwyno gan GovDelivery yn uniaith Saesneg.</p>	<p>Gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg am ragor o wybodaeth gan yr achwynydd nifer o weithiau ond ni chafwyd ymateb.</p> <p>Cadarnhaodd gohebiaeth a gafwyd oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar 14/11/18 fod y penderfyniad wedi'i wneud i gau'r ymchwiliad.</p> <p><b>Ymchwiliad wedi cau.</b></p>

## CSG441

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• mewn cwyn, dyddiedig 25/10/2018, bod yr achwynydd wedi methu â derbyn gwasanaeth Cymraeg yn Llyfrgell Bargod ar 25/10/18</li></ul>	<p>Anfonwyd ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg ar 07/11/18 yn cydnabod mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn Llyfrgell Bargod.</p> <p>Roedd hyn hefyd yn cael ei drafod drwy broses gwynion y Cyngor.</p>	<p>Mae gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar 31/01/19 yn cadarnhau, yn dilyn sawl cais am wybodaeth bellach o'r achwynydd, nad oedd dim wedi dod i law, felly mae'r ymchwiliad wedi cau.</p> <p><b>Ymchwiliad wedi Cau.</b></p>



## CSG487

MANYLION YR YMCHWILIAD	CANLYNIAD	DIWEDDARIAD
<p>Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;</p> <ul style="list-style-type: none"><li>mewn cwyn, dyddiedig 16/01/19, bod yr achwynydd wedi cysylltu â'r Cyngor ar 15:00 ar 08/01/19 ynghylch ymholiad treth y cyngor ar 01443 815 588 ac nad oedd yn gallu trafod ei ymholiad yn Gymraeg.</li></ul>	<p>Anfonwyd ymateb at Gomisiynydd y Gymraeg ar 21/01/19 yn cadarnhau mai CBSC sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth.</p> <p>Derbyniwyd y Cylch Gorchwyl a'r Hysbysiad Tystiolaeth.</p>	<p>Danfonwyd ymateb i'r Hysbysiad Tystiolaeth ar y 14/05/19.</p> <p>Yn aros am ohebiaeth bellach gan y Comisiynydd.</p> <p><b>Ar Fynd.</b></p>

### 3. Sgiliau Iaith Staff

Mae'r gallu i gofnodi materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn nhermau data a dadansoddi staff yn rhan annatod o'r system gyflogres o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dangosir ffigyrau diwedd y flwyddyn ariannol hyd at 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018 isod ac ar y dudalen nesaf.

O gymharu â'r llynedd, mae nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi'u cofnodi wedi cynyddu'n sylweddol. Gellir esbonio'r cynnydd yn rhannol gan arolwg staff a gynhaliwyd gan Wasanaethau Pobl yn ystod haf 2017, a ofynnodd i'r staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar sail lefelau 1-5 ALTE (Cymdeithas Profwyr Iaith Ewrop). Mae'r broses gyfredol o gasglu data am sgiliau staff hefyd yn seiliedig ar lefelau sgiliau a amlinellwyd yn yr arolwg staff.

Erbyn hyn, mae'r cofnod data wedi'i gwblhau, a chaiff y cynnydd ei adlewyrchu yn y ffigyrau isod. Fodd bynnag, oherwydd ailstrwythuro mewnol mewn meysydd gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, nid yw'n bosibl dangos cymhariaeth â'r llynedd fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Ar amser adrodd y llynedd, roedd cyfanswm nifer y staff a siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad fel a ganlyn;

CYFANSYMLIAU'R CYNGOR	2017-2018			2016-2017		
	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
	8,682	402	4.63	8,767	436	4.97

### PROFFIL IEITHYDDOL Y GWEITHLU - GALLU YN Y GYMRAEG YN ÔL MAES GWASANAETH A RHUGLDER AR 31<sup>ain</sup> MAWRTH 2019

#### i) FFIGYRAU STAFF CYFFREDINOL

<i>Cymunedau</i>	Cyfanswm y Staff	Siaradwyr Cymraeg	%
Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	811	101	12.45
Seilwaith	234	24	10.25
Gwasanaethau Eiddo	59	17	28.81
Diogelu'r Cyhoedd	109	16	14.67
Adfywio a Chynllunio	346	39	11.27
<b><i>Cyfanswm</i></b>	<b>1551</b>	<b>194</b>	<b>12.51</b>

<i>Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol</i>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Gwasanaethau Gwella Busnes	<b>966</b>	127	13.15
Cyllid Corfforaethol	<b>169</b>	23	13.61
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol	<b>145</b>	19	13.10
Cynllunio a Strategaeth Addysg	<b>171</b>	35	20.47
Dysgu, Addysg a Chynhwysiant	<b>489</b>	88	17.99
Y Gyfraith a Llywodraethu	<b>57</b>	8	14.03
Gwasanaethau Pobl	<b>101</b>	25	24.75
Ysgolion	<b>3425</b>	899	26.25
<i><b>Cyfanswm</b></i>	<b>5204</b>	<b>1161</b>	<b>22.31</b>

<i>Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai</i>	<b>Cyfanswm y Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Gwasanaethau Oedolion	<b>1139</b>	127	11.15
Cymorth Busnes	<b>6</b>	2	33.33
Cartrefi Caerffili	<b>517</b>	63	12.18
Gwasanaethau i Blant	<b>275</b>	54	19.64
<i><b>Cyfanswm</b></i>	<b>1939</b>	<b>246</b>	<b>12.69</b>

<b>Cyfansymiau'r Cyngor</b>	<b>8533</b>	<b>1581</b>	<b>18.53</b>
-----------------------------	-------------	-------------	--------------

## NODIADAU

- Nid yw'r ffigyrau fesul maes gwasanaeth ar gyfer **Cyfanswm y Staff** a **Siaradwyr Cymraeg** yn gyfartal â'r cyfanswm cyffredinol fesul Cyfadran oherwydd bod gan rai aelodau o staff fwy nag un swydd yn y sefydliad a bod y swyddi hynny o fewn meysydd gwasanaeth gwahanol.
- Yn unol ag adroddiadau blaenorol, mae'r ffigurau yn **3 i)** uchod yn gyfanswm nifer y bobl fesul cyfadran sydd wedi cwblhau'r ffurflen Sgiliau Ieithyddol gan nodi sgiliau Iaith Gymraeg.
- Mae'r ffigurau a ddangosir yn **3 ii)** i **3 iv)** sy'n dilyn, yn cyfeirio at lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg fesul maes gwasanaeth ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â'r cyfansymiau a ddangosir yn **3 i)** oherwydd er enghraifft yn yr isadran Cyllid Corfforaethol (yr ail adran isod yn **3 ii)**), mae'r golofn "Lefel 4" yn cyfeirio at aelod staff sy'n gallu darllen, siarad, deall ac ysgrifennu at Lefel 4, ac nid tri aelod staff gwahanol.

i) CYMUNEDAU

Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	14	9	6	11	57	4	0
Dealltwriaeth	16	9	8	9	45	13	1
Ysgrifennu	14	4	10	13	30	29	1
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>101</b>						

Seilwaith	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	-	-	-	2	18	3	1
Dealltwriaeth	-	-	-	1	19	3	1
Ysgrifennu	-	-	-	1	15	6	2
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>24</b>						

Gwasanaethau Eiddo	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	-	1	1	1	13	1	-
Dealltwriaeth	-	1	1	2	12	1	-
Ysgrifennu	-	-	1	1	7	8	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>17</b>						

Diogelu'r Cyhoedd	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	3	1	3	2	6	1	-
Dealltwriaeth	5	2	1	3	3	2	-
Ysgrifennu	3	-	3	2	4	4	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>16</b>						

Adfywio a Chynllunio	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	5	-	1	7	23	3	-
Dealltwriaeth	5	2	4	3	23	2	-
Ysgrifennu	5	-	2	6	15	11	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>39</b>						

ii) **ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

<b>Gwasanaethau Gwella Busnes</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
Gwrando/Siarad	14	4	2	14	83	8	2
Dealltwriaeth	14	8	5	15	61	21	3
Ysgrifennu	15	4	2	10	28	63	5
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>127</b>						

<b>Cyllid Corfforaethol</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
Gwrando/Siarad	-	1	-	4	14	4	-
Dealltwriaeth	-	1	1	1	16	4	-
Ysgrifennu	-	1	-	2	10	10	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>23</b>						

<b>Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
Gwrando/Siarad	-	1	2	1	14	1	-
Dealltwriaeth	-	2	1	-	14	1	1
Ysgrifennu	-	1	1	1	7	8	1
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>19</b>						

<b>Cynllunio a Strategaeth Addysg</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
Gwrando/Siarad	-	-	1	4	27	3	-
Dealltwriaeth	-	1	2	3	25	4	-
Ysgrifennu	-	-	3	-	18	13	1
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>35</b>						

<b>Dysgu, Addysg a Chynhwysiant</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
Gwrando/Siarad	5	6	-	10	64	3	-
Dealltwriaeth	6	6	4	9	50	13	-
Ysgrifennu	6	-	7	5	40	28	2
<b>Cyfanswm staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>88</b>						

<b>Y Gyfraith a Llywodraethu</b>	<b>5</b>	<b>4</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>Dim Sgiliau</b>	<b>Heb Ddatgan</b>
Gwrando/Siarad	-	-	-	1	6	-	1
Dealltwriaeth	-	-	1	-	7	-	-
Ysgrifennu	-	-	-	1	6	1	-
<b>Cyfanswm staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>8</b>						

Gwasanaethau Pobl	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	1	1	2	6	14	1	-
Dealltwriaeth	1	3	1	4	14	2	-
Ysgrifennu	-	2	-	6	8	9	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>25</b>						

Ysgolion	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	162	39	33	168	477	15	5
Dealltwriaeth	164	56	64	126	414	54	21
Ysgrifennu	167	30	31	146	288	209	28
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>899</b>						

iii) GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI

Gwasanaethau Oedolion	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	13	9	7	6	79	13	-
Dealltwriaeth	15	11	5	5	71	16	4
Ysgrifennu	14	7	3	11	39	49	4
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>127</b>						

Cymorth Busnes	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	-	-	-	-	1	1	-
Dealltwriaeth	-	-	-	-	1	1	-
Ysgrifennu	-	-	-	-	1	1	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>2</b>						

Cartrefi Caerffili	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	2	3	6	6	42	4	-
Dealltwriaeth	1	7	2	2	34	15	2
Ysgrifennu	5	3	4	4	19	28	-
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>63</b>						

Gwasanaethau Plant	5	4	3	2	1	Dim Sgiliau	Heb Ddatgan
Gwrando/Siarad	3	-	2	1	46	1	1
Dealltwriaeth	2	1	2	3	38	7	1
Ysgrifennu	2	1	1	3	27	19	1
<b>Cyfanswm Staff â Sgiliau Cymraeg</b>	<b>54</b>						

## 4. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg

Mae CBS Caerffili wedi darparu cyrsiau Cymraeg sgysiol i staff ac aelodau etholedig ers 2001. Mae'r cyrsiau hefyd ar gael i'r cyhoedd ac aelodau o'r staff o sefydliadau partner i'w mynychu. Mae'r cyrsiau yn amrywio o gyrsiau blasu sylfaenol i ddechreuwy'r i gyrsiau sy'n darparu ar gyfer y rhai sydd wedi dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r data ar gyfer y cyrsiau a gynigir ac a fynychir gan staff CBS Caerffili ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-2019 fel a ganlyn;

<b>CWRS A GYNIGIWDYD</b>	<b>NIFER Y CYRSIAU A GYNIGIWDYD</b>	<b>NIFER Y STAFF A FYNYCHWYD</b>
30 Wythnos	37	53
Cwrs 10 awr Ar-lein	1	75
Cwrs Deuddydd Blasu'r Gymraeg	3	14
'Say Something in Welsh' - Cwrs Cymraeg Ar-lein	1	2
Tynnu'n Ôl	Dd.y.B.	6

### Ffigyrau Staff Caerffili – 2001-2018

<b>Blwyddyn Academaidd</b>	<b>Cyrsiau Blwyddyn</b>	<b>Cyrsiau Blasu</b>	<b>Cyfanswm nifer y Dysgwyr</b>	<i>(Niferoedd tynnodd allan o'r cwrs)</i>
2001 – 2002	46	0	46	(0)
2002 – 2003	66	0	66	(11)
2003 – 2004	84	37	121	(17)
2004 – 2005	70	43	113	(15)
2005 – 2006	61	77	138	(10)
2006 – 2007	66	27	93	(12)
2007 – 2008	68	38	106	(7)
2008 – 2009	43	58	101	(9)
2009 – 2010	48	50	98	(13)
2010 – 2011	50	33	83	(1)
2011 – 2012	52	21	73	(2)
2012 – 2013	52	22	74	(3)
2013 – 2014	61	142	203	(16)
2014 – 2015	56	58	114	(13)
2015 – 2016	40	28	68	(14)
2016 – 2017	45	14	59	(3)
2017 – 2018	50	61	111	(4)
2018 – 2019	53	91	144	(6)
<b>CYFANSYMAU</b>	<b>1011</b>	<b>800</b>	<b>1811</b>	<b>(152)</b>

Mae'r Cyrsiâu Blasu Cymraeg deuddydd yn cael eu rhedeg mewn cydweithrediad â nifer o awdurdodau a sefydliadau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r cyrsiau hyn bob amser yn boblogaidd, gyda CBS Caerffili yn cynnal cwrs ym mis Gorffennaf 2018, gyda phedwar aelod o staff o awdurdodau cyfagos yn bresennol.

Lansiwyd Cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein o'r enw **Cymraeg Gwaith** yng ngwanwyn 2018 ac fe'i datblygwyd i'w ddefnyddio gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau derbynfa rheng flaen. Targedwyd y cwrs hwn at y meysydd gwasanaeth hynny y mae Safon 64 yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn y lle cyntaf.

<b>Safon 64</b>	<p>Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.</p> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2017:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prif wasanaeth derbynfa'r corff</li> </ul> <p><b>Rhaid cydymffurfio â safon 64 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Medi 2018:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llyfrgelloedd Bargod, Rhisga, Rhymni, Coed Duon, Caerffili ac Ystrad Mynach;</li> <li>• Canolfan Croeso Caerffili;</li> <li>• Maenordy Llancaiach Fawr;</li> <li>• Gwasanaethau Cofrestru yn Nhŷ Penallta</li> <li>• Canolfannau hamdden Caerffili, Heolddu, Trecelyn a Rhisga.</li> </ul>	30/09/17
-----------------	--	----------

Gellir cynnal y cwrs fesul cam ac mae'n mynd â'r dysgwyr drwy gyfres o senarios gyda chyfres o gwestiynau i ddilyn. Ar ôl cwblhau'r cwrs, caiff dysgwyr eu he-bostio i dderbyn tystysgrif. Mae cwrs dilynol ar gael yn awr hefyd a bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn Haf 2019 i'r rhai sydd wedi cwblhau'r 10 awr gyntaf.

Mae rhagor o gyrsiau ar-lein o'r math hwn bellach ar gael ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol gan gynnwys gofal cymdeithasol a busnes a fydd hefyd yn cael eu cyflwyno i feysydd gwasanaeth perthnasol yn Haf 2019.

Ni ofynnwyd am ddarparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, felly nid oes ffigurau hyfforddi staff i'w cofnodi. Mae'r wybodaeth uchod yn cael ei gyhoeddi yma i ddarparu parhad ag adroddiadau blaenorol.



## 5. Recriwtio i Swyddi Gwag

Cafodd **632** o swyddi newydd a swyddi gwag eu hysbysebu ers 30<sup>ain</sup> Mawrth 2018 eu categoraiddio fel swyddi sy'n gofyn:

- (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

**6**

- (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd

**1**

Mae cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg wedi bod ar gael am ddim i bob aelod o staff ers blwyddyn academaidd 2001-2002 (gweler **Adran 3**)

- (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol,

**626**

- (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

**1\***

**\*Aseswyd y swydd hon fel un lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol oherwydd sgiliau Cymraeg aelodau eraill y tîm. Fodd bynnag, mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu fel Cymraeg dymunol fel gofyniad sylfaenol.**

Mae'r Asesiadau Sgiliau Iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi gwag/swyddi newydd yn cael eu cynnal fel sy'n ofynnol gan Safon 136, ac maent wedi eu cofnodi gan adnoddau dynol ers Hydref 2016. Wedyn, bydd yr asesiad a thystiolaeth ategol yn llunio rhan o'r achos busnes sydd ei angen i gael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu swyddi newydd.

Rhaid i bob swydd wag neu newydd gael Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg a hysbysebir pob swydd fel **Cymraeg dymunol** fel gofyniad safonol, a bydd yr asesiad yn ystyried a oes angen newid hynny i **Cymraeg hanfodol**.

Mae sawl sefyllfa, lle caiff nifer o swyddi eu recriwtio gan asiantaeth, oherwydd dyrchafiad dros dro, neilltuo neu fynegi diddordeb lle nad oes hysbyseb ffurfiol, lle efallai na fydd Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg bob amser ar gael ar gyfer y swyddi hyn. Os nad yw Gwasanaethau Pobl yn delio â swyddi, e.e. swyddi prentisiaid diweddar a gymeradwywyd gan adroddiad pwyllgor ac nid oedd Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer y rolau hyn gan na chawsant eu cymeradwyo drwy broses cymeradwyo arferol y Tîm Rheoli Corfforaethol.

Yn yr un modd nid yw swyddi Prif Swyddogion bob amser yn mynd drwy Wasanaethau Pobl ac felly ni fyddai unrhyw Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer y swyddi hyn ychwaith.

## Atodiad 1 – Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth y Gymraeg 2017-2022

<b>Maes Strategol 1 – Y Teulu</b>	<b>Gweledigaeth – Cynyddu nifer y teuluoedd lle siaredir y Gymraeg gyda phlant</b>
Blaenoriaethau Strategol	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymestyn cyfleoedd anffurfiol rheolaidd i rieni ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn cynorthwyo eu plant</li> <li>• Creu neges gyson ar draws y sector, er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu ac yn galluogi plant i gaffael ar yr iaith Gymraeg.</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac argaeledd darpariaeth gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd.</li> </ul>	

Rhif.	Cam Gweithredu	Sylwadau Cynnydd	
1.1	Hyrwyddo mudiadau sy'n hybu'r Gymraeg megis Menter Iaith Caerffili, Yr Urdd, Mudiad Meithrin, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent ac yn benodol eu gweithgareddau a'u gwasanaethau i deuluoedd (trwy rhyngweithiau cymdeithasol, Newline, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd)	<p>Mae Uned Gyfathrebu CBSC yn parhau i ddefnyddio ei hamrywiaeth eang o sianeli i hyrwyddo digwyddiadau a sefydliadau Cymraeg. Mae'r sianeli hyn yn cynnwys Newline, cyfryngau cymdeithasol, gwefan CBSC a'n llwyfan e-byst marchnata. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys Ras yr Iaith a drefnwyd gan Mentrau Iaith Cymru.</p> <p>Mae Cymraeg i blant yn parhau i rannu gwybodaeth am ein grwpiau cefnogi lleol a'r manteision o fagu plant yn ddwyieithog gyda'r tимоedd Bydwreigiaeth a'r Ymwelwyr Iechyd ar draws bwrdd iechyd Aneurin Bevan. Trefnir cyflwyniadau yn rheoliadd i ddiweddarau'r tимоedd ar ein darpariaeth.</p> <p>Mae Cymraeg i blant yn parhau i gynnal grwpiau cefnogi i rieni newydd yng Nghaerffili, Trethomas, Risga, Ystrad Mynach. Cynhelir digwyddiadau Miri Meithrin mewn partneriaeth gyda Menter Caerffili.</p> <p>Mae Cymraeg i blant yn cyfeirio rhieni ymlaen i gwrs dysgu Cymraeg am ddim y Clwb Cwtsh, y grwpiau Ti a Fi a'r Cylchoedd Meithrin lleol.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo ein grwpiau ac ein digwyddiadau ar saneli cyfryngau cymdeithasol y Sir.</p> <p>Dosbarthu a rhannu gwybodaeth am y Fenter ar unrhyw gyfle gyda darpar ddysgwyr a dysgwyr cyfredol trwy ddigwyddiadau, sesiynau dysgu anffurfiol a Sadyrnau siarad.</p> <p>Cynnwys manylion digwyddiadau yn eost misol at dysgwyr Dysgu Cymraeg Gwent.</p> <p>Staff yn ymwybodol o wasanaethau/sefydliadau ac yn eu hyrwyddo pan yn berthnasol.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Cymraeg i Blant</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Canolfan Dysgu Cymraeg Gwent</p>

		<p>Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerffili (GGiD) yn gweithio mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith, Mudiad Meithrin ac unigolion i hyrwyddo addysg Gymraeg, gofal plant, gweithgareddau, grwpiau (gan gynnwys Ti a Fi) a digwyddiadau drwy'r flwyddyn o gwmpas y fwrdeistref. Mae gwybodaeth fyw, cyfredol ar gael drwy wefan GGiD, tudalennau cyfryngau cymdeithasol, llinell gymorth, post ac e-bost.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo gwasanaethau ei hunain yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau partneriaid a chyrrff eraill. Gwneir hyn trwy system ebostio'r Fenter, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y Fenter ac wrth gydnabod gwaith partneriaeth ar draws ei gwasanaethau. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â Chyngor Caerffili er mwyn hyrwyddo ein gwaith ac yn annog partneriaid i gydweithio yn yr un modd.</p> <p>Mae Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg Cyngor Caerffili yn hyrwyddo gwaith a gwasanaethau ei holl bartneriaid gan gynnwys gwaith y sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Fforwm Iaith. Byddwn yn hyrwyddo hyn drwy ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol a system e-bost y Cyngor. Byddwn bob amser yn annog partneriaid i weithio gyda ni yn yr un ffordd.</p>	<p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
1.2	Ffurflenni gwerthuso digwyddiadau yn cynnwys cwestiynau ynghylch defnydd iaith	<p>Cwblheir ffurflenni adborth Cymraeg i blant ar ddiwedd bob cyfres o 6 sesiwn, sydd yn holi cwestiynau am iaith y cartref.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Addysg Oedolion yn gweithio gyda nifer o asiantaethau ar draws y fwrdeistref ac yn hyrwyddo'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym wedi cynnig nifer o gyrsiau iaith Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy weithio mewn partneriaeth â Choleg Gwent a Menter Iaith Caerffili</p> <p>Yn ystod ein holl gweithgareddau, rydym yn dosbarthu ac yn casglu ffurflenni a gwybodaeth gwerthuso digwyddiadau. Mae'r wybodaeth yn cynnwys wybodaeth am barn ac anghenion pobl lleol ac yn nodi dewis a defnydd iaith cyfranogwyr.</p>	<p>Cymraeg i Blant</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p>
1.3	Datblygu adnodd gwybodaeth gynhwysfawr (llyfryn/adnodd ar-lein) sy'n dangos y gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd a'r daith trwy addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r manteision i ddwyieithrwydd	<p>Mae Cymraeg i blant yn rhannu'r llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' ynghyd a thafenni hyrwyddo eraill gyda'r Ymwelwyr Iechyd, rhieni newydd a phartneriaid.</p> <p>Mae pob taflen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chynhyrchu ar ffurf ddwyieithog ac yn bodloni'r Safonau Iaith Gymraeg.</p>	<p>Cymraeg i Blant</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p>

		<p>Mae GGiD Caerffili yn darparu amrywiaeth o lyfrynnau PDF dwyieithog a chopïau caled am fanteision Dwyieithrwydd/yr iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg e.e. "Eich Canllaw i Addysg Cyfrwng Cymraeg", "8 rheswm dros gyflwyno'r Gymraeg o'r crud", "Help gyda Gwaith Cartref" a chyhoeddiadau cadarnhaol Llywodraeth Cymru am rianta ac ati. A hefyd fel 4.9 a 4.10</p> <p>Mae Fforwm Iaith Sir Caerffili wedi sicrhau cyllid er mwyn cynhyrchu'r adnodd ac erbyn hyn wedi cytuno ar gynnwys a gwedd y llyfryn. Argraffwyd y llyfryn yn Rhagfyr 2018 a dechreuwyd ar y broses o'i ddsbarthu yn eang ar draws y Sir. Fe fydd partneriaid ac aelodau'r Fforwm yn medru derbyn cyflenwad o'r llyfryn a'i dosbarthu yn ystod gweithgareddau, digwyddiadau a'u gwaith o gefnogi teuluoedd yn lleol. Fe fydd y Fforwm yn trafod ymhellach y cyfle i drosglwyddo'r llyfryn i fod yn adnodd ar-lein yn y dyfodol.</p> <p>Gweithio gyda'r Fforwm Iaith i ddatblygu llyfryn defnyddiol ar fanteision magu plant dwyieithog. Bydd y ddogfen ar-lein i'w lawrlwytho.</p>	<p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
1.4	<p>Newsline i ddatblygu erthygl (dwywaith y flwyddyn) yn hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol.</p>	<p>Mae enghreifftiau o'r ffordd y mae Newsline wedi cael eu defnyddio i hyrwyddo'r Gymraeg yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl ar fuddsoddiad mewn darpariaeth ysgolion Cymraeg newydd ar draws y fwrdeistref sirol.</li> <li>• Hyrwyddo'r Ras yr Iaith a drefnwyd gan Fentrau Iaith Cymru.</li> </ul> <p>Mae aelodau Fforwm Iaith y Sir yn awyddus i gydweithio gyda'r swyddogion hynny sy'n cynhyrchu Newsline er mwyn cynyddu'r deunydd sy'n ymddangos yn y papur sy'n hyrwyddo'r cyfleoedd yn lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. Trwy'r Fforwm, mae aelodau wedi derbyn wybodaeth ynglyn â sut i ddarparu deunydd ar gyfer y papur ac yn awyddus i gydweithio ymhellach er mwyn sicrhau sylw digonol i'r Gymraeg o fewn y papur yn gyson.</p> <p>Hysbysir Aelodau'r Fforwm Iaith Gymraeg am yr amserlen argraffu ar gyfer Newsline fel bod ganddynt ddigon o amser i gyflwyno erthyglau i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y rhifyn nesaf.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

<b>Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc</b>	<b>Gweledigaeth – Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, gwella'u hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg, a sicrhau gwell mynediad i wasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg</b>
<b>Blaenoriaethau Strategol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi addysgwyr er mwyn iddynt allu hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>• Gweithio gyda phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgîl gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd â chyswllt â phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol</li> <li>• Cynyddu nifer y plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Datblygu sgiliau arwain dwyieithog ymysg pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddatblygu i fod yn bencampwyr</li> </ul>	

2.1	Cynnal archwiliad o'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn adnabod bylchau ac ardaloedd lle ceir galw uchel.	<p>Mae'r GGiD yn darparu data blynyddol ar nifer y darparwyr a lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ôl ardal, i'w cynnwys yn asesiadau digonolrwydd gofal plant Llywodraeth Cymru.</p> <p>Comisiynodd Menter Iaith Sir Caerffili Proffil Iaith o sefyllfa'r Gymraeg yn y sir ym Mai 2016. Yn ogystal, mae WESP Caerffili yn nodi'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i blant a phobl y Sir. Hoffai Menter Iaith Sir Caerffili cydweithio â phartneriaid a Phwyllgor Craffu perthnasol o fewn Cyngor Caerffili er mwyn cwblhau archwiliad manwl o'r cyfleoedd a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn adnabod bylchau a'r ardaloedd daearyddol hynny lle nad oes digon o wasanaethau cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p>
2.2 (ac 1.1)	Hyrwyddo mudiadau Cymraeg ac yn arbennig eu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.	<p>Gweler 1.1 uchod</p> <p>Staff yn ymwybodol o wasanaethau/sefydliadau ac yn eu hyrwyddo pan fo hynny'n berthnasol.</p> <p>Fel 1.1</p> <p>Fel y nodir yn 1.1, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo gwasanaethau ei hunain yn ogystal â gwasanaethau a gwaith mudiadau eraill. Gwneir hyn trwy ein system ebostio, cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ac yn ystod gweithgareddau'r Fenter. Yn ogystal, yn ystod unrhyw ddigwyddiadau cymunedol, rydym yn gwahodd partneriaid.</p> <p>Mae'r Urdd a'r Fenter Iaith yn parhau i ffurfio partneriaeth gyflenwi gyda Gwasanaeth Ieuenticid Caerffili.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Gwasanaeth Ieuenticid</p>

2.3	<p>Gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o werth sgiliau iaith Gymraeg fel cyfle gyrfa neu gyflogaeth</p>	<p>Mae tîm gweithrediadau cyflogadwyedd Cronfa Gymdeithasol Ewrop Addysg Oedolion yn gweithio gyda nifer o asiantaethau ar draws y fwrdeistref ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg lle bynnag y bo modd. Hysbysebwyd cwrs sgiliau derbyn Cymraeg ond ni chawsom unrhyw un yn gwneud cais am le. Gofynnir i bob un o'n cyfranogwyr os oes angen iddynt ddarparu cyrsiau yn Gymraeg ond hyd yn hyn nid oes neb wedi mynegi diddordeb.</p> <p>Mae Cymraeg i blant yn cynnal gweithdy ar fanteision dwyieithrwydd gyda myfyrwyr ar gyrsiau Gofal Plant Coleg y Cymoedd.</p> <p>Mae'r Fforwm iaith yn trafod ar hyn o bryd, digwyddiad ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Byddai'r digwyddiad yn gyfle i holl aelodau'r Fforwm i ddisbarthu gwybodaeth i fyfyrwyr yr ysgol am y math o wasanaethau maent yn darparu a'r cyfleoedd gyrfaol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae Menter Iaith Sir Caerffili hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli niferus i siaradwyr Cymraeg ifanc ac ar hyn o bryd yn cefnogi gwirfoddolwyr o fewn ein gwasanaethau gofal plant a'n gweithgareddau amrywiol i blant a phobl ifanc.</p> <p>Mynychwyd digwyddiad gyda stondin wybodaeth yn nigwyddiad Coleg y Cymoedd - 'Sgil Iaith Sgil Gwaith'. Y nod o hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor a'r galw mawr am i siaradwyr Cymraeg ddod i weithio er mwyn gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Cymraeg i Blant</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
2.4	<p>Datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal â phe cyn adnoddau er mwyn cefnogi darpariaethau i hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth leol.</p>	<p>Mae gan holl staff a gyllidir trwy'r Gronfa Gymdeithasol Ewrop y cyfle i fynychu cyrsiau i ddyddu'r iaith Gymraeg fel rhan o'i datblygiad Proffesiynol, mae rhai wedi dangos diddordeb yn barod ond neb eto wedi manteisio ar y cyfle.</p> <p>Derbyniodd staff Teuluoedd yn Gyntaf hyfforddiant yn 2017/18 ac maent yn parhau i dderbyn gwybodaeth am Fesur y Gymraeg fel rhan o'u cynefino.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili wedi datblygu pecynnau ymwybyddiaeth iaith amrywiol er mwyn cefnogi darpariaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn awyddus i gydweithio gyda'r Urdd a Gwasanaeth Ieuencid Caerffili er mwyn datblygu cefnogaeth pellach i brosiectau a gwasanaethau ieuencid. Byddai hwn yn medru cynnig hyfforddiant fel rhan o raglen hyfforddiant y gwasanaeth ieuencid yn ogystal â datblygu pecyn o adnoddau a fyddai'n cynorthwyo staff i hyrwyddo Cymreictod a threftadaeth leol.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p>

		Nid oedd hyn yn bosibl gyda'r swydd hyfforddiant yn wag. Mae'r swydd bellach wedi'i llenwi a bydd yr deiliad y swydd yn sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnwys yn yr amserlen hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn.	Polisi Corfforaethol
2.5	Ymgynghori a datblygu ymgyrch i ddenu pobl ifanc at waith ieuenctid, chwaraeon a gweithgareddau celfyddydol fel arweinwyr	Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i weithio gyda'r Urdd, Adran Chwaraeon yr Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerffili er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gyrfaol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym prinder gweithwyr ieuenctid sy'n medru siarad Cymraeg yn y Sir a'r galw am wasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn cynyddu. Rydym yn awyddus i drafod cynlluniau posib ar gyfer ymgyrch hyfforddiant a recriwtio yn ystod y flwyddyn nesaf.	Menter Iaith Caerffili
2.6	Cynllunio, cydlynu a hyrwyddo calendr o weithgareddau gofal a chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc 11-18 oed	Fel 1.1 Er fod Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gofal a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir, fel partneriaid, nid ydym wedi cydweithio ar un calendr o weithgareddau. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cydweithio'n agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir er mwyn hyrwyddo'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i deuluoedd yn y sir ond rydym yn croesawu'r cyfle i drafod datblygu calendr sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i deuluoedd.	GGiD Menter Iaith Caerffili
2.7	Cynllunio, cydlynu a hyrwyddo calendr o weithgareddau gofal, chwarae a hamdden cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 4-11 oed.	Fel 1.1 Er fod Menter Iaith Sir Caerffili yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau gofal a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir, fel partneriaid, nid ydym wedi cydweithio ar un calendr o weithgareddau. Mae aelodau'r Fforwm Iaith yn cydweithio'n agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir er mwyn hyrwyddo'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael i deuluoedd yn y sir ond rydym yn croesawu'r cyfle i drafod datblygu calendr sy'n crynhoi'r hyn sydd ar gael i deuluoedd.	GGiD Menter Iaith Caerffili

<b>Maes Strategol 3 – Cymunedau</b>	<b>Gweledigaeth: Cefnogi grwpiau cymunedol a'u helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd</b>
<b>Blaenoriaethau Strategol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg presennol a rhannu arfer da.</li> <li>• Cefnogi grwpiau cymunedol i brif-ffrydio defnydd o'r iaith Gymraeg a chynnig y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith</li> <li>• Darparu cymorth penodol i fentrau cymunedol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.</li> </ul>	

3.1	Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o fewn gwasanaethau yn gwisgo llinyn neu fathodynau addas yn dangos eu sgil, fe fydd hwn yn annog y cyhoedd yn raddol i siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau.	<p>Cyflogir Ymgynghorydd Cyfrwng Cymraeg GGiD sy'n cael ei dynodi gan lanyard. Mae'n gallu ateb ymholiadau cymhleth GGiD drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn dosbarthu llinynnau a bathodynau addas i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys ysgolion a busnesau ar draws y Sir.</p> <p>Rydym yn darparu laynyards a bathodynau ar gyfer aelodau o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg er mwyn dangos bod gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar ein porthol i staff.</p>	<p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
3.2	Cynllunio a chydlynu ymgyrch er mwyn dosbarthu bathodynau ac arwyddion iaith Gymraeg ar draws busnesau a mudiadau er mwyn cefnogi pobl leol i ddefnyddio'r Gymraeg.	<p>Fel rhan o'n Prosiect Y Gymraeg mewn Busnes, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn dosbarthu bathodynau ac arwyddion iaith Gymraeg ymysg busnesau a sefydliadau'r Sir. Mae'r prosiect yn cefnogi busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ac mae dangos yn glir bod gwasanaethau dwyieithog ar gael i'r cyhoedd yn rhan bwysig o'r broses.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'r Fenter Iaith er mwyn sicrhau bod busnesau lleol yn ymwybodol o'r angen i hyrwyddo gwasanaethau trwy'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol - cysylltiadau trwy Fforwm Busnes Caerffili.</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
3.3	Cefnogi datblygiad a hyrwyddo cyfeirlyfr/ffônlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol.	<p>Fel 1.1</p> <p>Yn ystod Ebrill-Mai 2017, lansiodd Menter Iaith Sir Caerffili, cyfeirlyfr o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir. Dosbarthwyd y cyfeirlyfr yn eang ar draws y sir a derbyniwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r adnodd. Rydym yn trafod ar hyn o bryd y posibilrwydd o ddatblygu'r wybodaeth i fod yn adnodd ar lein a rhyngweithiol.</p> <p>Mae hyrwyddo'r gwaith hwn yn mynd rhagddo gyda Menter Iaith Caerffili.</p>	<p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>



3.4	<p>Cefnogi a hyrwyddo datblygiad Ffiliffest, gŵyl flynyddol Menter Iaith Caerffili sy'n dathlu'r iaith Gymraeg a threftadaeth leol. Byddai hyn yn cynnwys cefnogaeth gan adrannau megis Twristiaeth, Hamdden, Datblygu'r Celfyddydau, Gwasanaeth Ieuencid a Chyfathrebu.</p>	<p>Mae Tîm Cyfathrebu CBSC yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r digwyddiad blynyddol hwn drwy'r holl sianeli cyfathrebu sydd ar gael iddo.</p> <p>Mae Cymraeg i blant yn cefnogi digwyddiad blynyddol Ffiliffest gyda gweithgareddau ar gyfer plant meithrin.</p> <p>Fel 1.1</p> <p>Yn ystod mis Mehefin 2018, cynhaliodd y Fenter ei gŵyl haf, Ffiliffest, unwaith eto eleni yng Nghastell Caerffili. Mynychodd yn agos at 5000 o bobl yr wyl a cefnogwyd y diwrnod gan aelodau'r Fforwm yn ogystal â nifer o sefydliadau eraill. Derbyniwyd cefnogaeth gwerthfawr gan swyddogion marchnata a chyfathrebu Cyngor Caerffili.</p> <p>Yn ystod yr ŵyl, darparwyd rhaglen o weithgareddau amrywiol i blant a teuluoedd yn ogystal ag ardal gemau fideo a llwyfan gyda cerddoriaeth byw. Cynhelir yr ŵyl unwaith eto yn 2019ar Fehefin 29ain ac rydym yn awyddus iawn i gydweithio ag adrannau amrywiol y Cyngor er mwyn hyrwyddo a datblygu'r ŵyl ymhellach.</p> <p>Rydym yn cydweithio yn agos gyda'r Fenter Iaith trwy greu cyswllt rhyngddynt hwy a gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn eu cefnogi mewn cyfarfodydd gyda gwasanaethau penodol er mwyn ceisio adeiladu perthynas a sicrhau bod y cydweithio yn llwyddiannus.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Cymraeg i Blant</p> <p>GGiD</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
3.5	<p>Sicrhau fod mewnbyn a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg o fewn rhaglen digwyddiadau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Y Caws Mawr, Parti Traeth Coed Duon, marchnadoedd Nadolig ayyb).</p>	<p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn croesawu unrhw gyfle i gydweithio gyda Cyngor Caerffili er mwyn cynyddu'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o fewn ei rhaglen digwyddiadau cymunedol.</p> <p>Fe fydd Menter Caerffili yn darparu gwasanaeth cyhoeddiadau cyhoeddus dwyieithog ar ran y Cyngor o fewn rhai o'i ddigwyddiadau gan gynnwys Y Caws Mawr yn 2019.</p> <p>Rydym yn gweithio gydag adrannau'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg wrth greu dogfennau marchnata ddwyieithog.</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

<b>Maes Strategol 4 – Gwasanaethau Cymraeg</b>	<b>Gweledigaeth: Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref.</b>
<b>Blaenoriaethau Strategol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y safonau iaith perthnasol yn cael eu gweithredu.</li> <li>• Dylai uwch reolwyr y cyngor dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a chontractau a dogfennau comisiynu 3ydd parti</li> <li>• Dosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y cyngor a sefydliadau partner</li> </ul>	

4.1	Parhau i annog pob adran o fewn y Cyngor i ddefnyddio nwyddau a bathodynnau iaith Gwaith (Safon 68).	<p>Gweler 3.1 uchod.</p> <p>Gweler 3.1. uchod</p> <p>Fel 3.1</p>	<p>Tîm Cyfathrebu</p> <p>Polisi Corfforaethol</p> <p>GGiD</p>
4.2	Cefnogi ac annog siaradwyr Cymraeg ymhlith gweithwyr y Cyngor i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.	<p>Mae'r staff i gyd yn ateb ffonau yn ddwyieithog. Mae'r staff yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg os dewisant.</p> <p>Fel 3.1</p> <p>Rydym yn gwisgo bathodynnau a lanyards er mwyn i siaradwyr a dysgwyr gael cyfle i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg llafar. Rydym hefyd wedi darparu cyfres o wybodaeth ar ein porth i gefnogi staff i ddeall Safonau'r Gymraeg a sut i'w rhoi ar waith.</p> <p>Uwchben y clociau amser staff ac ar bob lifft ar bob llawr ym mhencadlys y Cyngor, mae fframiau ar y wal sy'n dangos Ymadrodd yr Wythnos. Ceir cyfres ohonynt yn cynnwys ymadroddion ar gyfer gwaith a rhai anffurfiol yn ymwneud â gwyliau. O dan yr ymadroddion mae disgrifiad ffonetig o sut i ynganu'r ymadrodd.</p> <p>Crëwyd cardiau penddesg i staff ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog, sut i wneud negeseuon dwyieithog Allan o Swyddfa, negeseuon peiriant ateb a system ffôn awtomataidd dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Mae gan yr awdurdod drwydded sefydliad ar gyfer Cysgliad ac mae'r feddalwedd ar gael ar holl gyfrifiaduron y Cyngor gyda chanllaw staff ar sut i ddefnyddio'r meddalwedd sydd ar gael ar Borthol yr Uned Polisi Corfforaethol. Adnewyddir y drwydded yn flynyddol.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>GGiD</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

4.3	Cynllunio er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth wedi ei seilio ar adborth a'r nifer o gwynion a dderbyniwyd.	Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi, eu hymchwilio a bod unrhyw newidiadau sydd angen, yn cael eu gwneud yn unol â Safonau'r Gymraeg.	Polisi Corfforaethol
4.4	Datblygu Cynllun Gwobrwyo ar gyfer cyrsiau i ddysgwyr yr iaith Gymraeg – Dysgwr y Flwyddyn/Gwasanaeth sy'n dangos y cynnydd mwyaf ayyb.	Mae cynlluniau ar y gweill i roi Cynllun Cydnabod Staff ar waith a gobeithir y bydd un o'r gwobrau yn un am Wasanaeth neu Dîm sy'n cydymffurfio'n dda neu am Wasanaeth/Tîm Dwyieithog y mis.	Polisi Corfforaethol
4.5	Grwpiau/digwyddiadau ar gyfer dysgwyr o fewn y Cyngor i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.	<p>Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ar Facebook a Thrydar Cyngor Sir Caerffili a Menter Caerffili ar gyfer Sadyrnau Siarad Dysgu Cymraeg Gwent gyda staff i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd sydd ar gael i ymarfer/Siarad Cymraeg tu allan i'r gwaith/dosbarth.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi dysgwyr y Gymraeg ar draws y Sir ac yn trefnu rhaglen o gyfleoedd wythnosol a misol ar eu cyfer. Rydym yn awyddus i hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ymysg dysgwyr y Cyngor.</p> <p>Gyda swyddog hyfforddi nawr yn ei swydd rydym yn gobeithio sefydlu grŵp yn fuan. Gobeithir y byddai sefydliadau megis y Fenter Iaith yn dod i mewn i drafod a hyrwyddo eu gwasanaethau.</p>	<p>Canolfan Dysgu Cymraeg Gwent</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
4.6	Cysylltu â phartneriaid er mwyn canfod faint o swyddi iaith Gymraeg hanfodol sydd ganddynt, natur y swyddi a sut y cânt eu recriwtio.	Gofynnir i staff Teuluoedd yn Gyntaf a ydynt yn siarad Cymraeg neu unrhyw iaith arall felly rydym yn ymwybodol o sgiliau ein timau staff. Mae rhai swyddi Cymraeg hanfodol yn ein Tîm Allgymorth Canolfan Adnoddau Arbennig sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.	Teuluoedd yn Gyntaf
4.7	Cysylltu â phartneriaid er mwyn canfod pa fudiadau sy'n darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith i staff a sut darperir yr hyfforddiant.	<p>Mae hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i staff mewnol. Rydym bellach yn hyrwyddo'r cyrsiau sy'n cael eu hysbysebu ar learnwelsh.cymru i bob partner allanol ac yn eu cysylltu â chymorth o Goleg Gwent.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn medru darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith wedi ei deilwra at adrannau penodol.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p>

4.8	Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ym mhwynt 4.6 uchod i ddatblygu rhaglen marchnata gan gynnwys ffair swyddi cyfrwng Cymraeg yn flynyddol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y gymuned a phobl ifanc am gyfleoedd gyrfa posib ar gyfer siaradwyr y Gymraeg.	<p>Fel y nodwyd eisoes, mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi rhaglen marchnata swyddi cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd o fewn sectorau amrywiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal rhwng y Swyddogion Iaith Gymraeg rhanbarthol, y Mentrau Iaith perthnasol, Gyrfa Cymru a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd. Byddai'r Cyngor â diddordeb mawr mewn sicrhau bod digwyddiad o'r fath yn cael ei gynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr lleol am y galw sydd am siaradwyr Cymraeg mewn gweithleoedd ac i sicrhau eu bod nhw'n rhoi gwerth ar yr iaith. Byddwn yn cydweithio fel Fforwm Iaith i geisio trefnu digwyddiad o'r fath.</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
4.9	Adrannau'r Cyngor i gofnodi manylion pan fo aelod o'r cyhoedd yn nodi eu bod am gynnal galwadau ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg (Safon 21).	<p>Tîm Cymorth Canolog Teuluoedd yn Gyntaf i gadw cofnod o unrhyw alwadau lle'n briodol.</p> <p>Mae GGiD yn cofnodi manylion cysylltiadau mewn lleoliadau a grwpiau sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol.</p> <p>Rhaid i adrannau unigol y Cyngor sicrhau eu bod nhw'n cofnodi hyn ac wedyn yn gwneud yn siŵr bod pob galwad a wnaed i'r person hynny yn cael eu gwneud yn eu dewis iaith. Byddwn yn gweithio gydag adrannau ar sut i roi systemau tebyg ar waith.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>GGiD</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
4.10	Cynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn cwrdd â gofynnion y cynnig gweithredol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gallu i gysylltu â'r awdurdod lleol trwy gyfrwng y Gymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu trwy gyfathrebiaeth ysgrifenedig.	<p>Mae'r Gwasanaeth Addysg Oedolion yn gweithio gyda nifer o asiantaethau ar draws y fwrdeistref ac yn hyrwyddo'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Gofynnir i bob darpar ddysgwr yn ystod y camau ymgysylltu cychwynnol a fyddai'n well ganddynt gael cymorth yn Gymraeg a hefyd pe byddai'n well ganddynt gael cyrsiau a gyflwynir yn Gymraeg, hyd yma nid oes unrhyw un wedi mynegi diddordeb.</p> <p>Rhoddwyd cyflwyniad Cymraeg i sefydliadau partner yn 2017/18.</p> <p>Mae'r GGiD yn annog lleoliadau a grwpiau sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd i gysylltu â'r GGiD gan ddefnyddio'r dull a ddewiswyd ganddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>GGiD</p>

		<p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn awyddus i gefnogi Cyngor Caerffili wrth gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chefnogi'r Cyngor i fesur cynnydd wrth gwrdd â gofynnion y cynnig gweithredol.</p> <p>Mae templed llythyr y Cyngor yn nodi <b>'Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.'</b> Rydym hefyd yn hysbysu yn Newslin. <b>'Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg'</b> ac mae'r Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhedeg hyfforddiant <b>Y Cynnig Gweithredol</b> i staff.</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
4.11	Datblygu partneriaethau gwell rhwng adrannau'r Cyngor a phartneriaid.	<p>Mae'r Gwasanaeth Addysg Oedolion yn gweithio gyda nifer o asiantaethau ar draws y fwrdeistref ac yn hyrwyddo'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym wedi cynnig nifer o gyrsiau Cymraeg yn y blynnyddoedd diwethaf trwy weithio mewn partneriaeth gyda Choleg Gwent a Menter Iaith Caerffili.</p> <p>Mae llawer o drafodaeth gyda phartneriaid dros y flwyddyn wedi ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'r safonau.</p> <p>Gwaith partneriaeth wedi'i sefydlu – GGiD a'r Fenter Iaith, Mudiad Meithrin ac ati,</p> <p>Mewn cyfarfodydd byddwn yn hyrwyddo partneriaethau gwahanol gan gynnwys y sefydliadau ar y Fforwm Iaith gyda'r Fenter Iaith os yn berthnasol.</p>	<p>Addysg Gymunedol</p> <p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>GGiD</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>

<b>Maes Strategol 5 – Y Gweithle</b>	<b>Gweledigaeth: Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</b>
Blaenoriaethau Strategol	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu sgiliau ac ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ymhlith rheolwyr lleol</li> <li>• Cynyddu'r wybodaeth iaith Gymraeg am sgiliau ieithyddol y staff sy'n gweithio o fewn y cyngor a sefydliadau partner.</li> <li>• Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle</li> <li>• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil wrth recriwtio, ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am swyddi a chyflogaeth.</li> <li>• Galluogi a chefnogi staff rhugl a staff sy'n dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</li> <li>• Cydymffurfiaeth gan Wasanaethau a Gomisiynir a Darpariaeth Trydydd Parti annibynnol</li> </ul>	

5.1	Cynyddu gwaith partneriaeth rhwng partneriaid a'r Cyngor er mwyn hyrwyddo gwerth y Gymraeg.	<p>Mae parhau i drafod gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn wedi ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau.</p> <p>Mae GGID yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio er mwyn cynnal gwaith partneriaeth da. Digwyddiad rhwydweithio wedi'i drefnu ar gyfer 8<sup>fed</sup> Mehefin, 2019.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn gweithio mewn partneriaeth agos ag amrywiaeth o adrannau'r Cyngor gan gynnwys: Gwasanaeth Ieuenctid, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Datblygu Economaidd, Tim RDP, Cefn Gwlad a Pharciau, Polisi a Chydraddoleb. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyflawni gwaith ar eu rhan neu cydweithio er mwyn datblygu a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn awyddus i weld y cyfleoedd hyn yn cynyddu er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn medru cael mynediad i drawstoriad eang o wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Gwelwn fod potensial ehangach i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth gydag adrannau er mwyn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy fanteisio ar brofiad ac arbenigedd y Fenter.</p> <p>Mewn cyfarfodydd byddwn yn hyrwyddo partneriaethau gwahanol gan gynnwys y sefydliadau sydd ar y Fforwm Iaith â'r Fenter Iaith os yn berthnasol.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>GGID</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
-----	---	---	--

5.2	Annog busnesau a'r sector wirfoddol i ddefnyddio bathodynau iaith Gwaith er mwyn datblygu delwedd ddwyieithog.	<p>Fel rhan o brosiect Y Gymraeg mewn Busnes, Menter Caerffili, mae'r Swyddog Prosiect yn dosbarthu bathodynau, arwyddion agor a chau a llinynnau i fusnesau a sefydliadau'r Sir. Yn ogystal â'r gefnogaeth ehangach i fusnesau, mae'r nwyddau hyn yn sicrhau fod nifer o fusneau yn medru datblygu delwedd dwyieithog sy'n annog siaradwyr Cymraeg y Sir i ofyn am wasanaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Fenter iaith ac yn hapus i gefnogi ac annog busnesau bach a'r sector gwirfoddol i ddefnyddio bathodynau iaith Gwaith ac ati.</p> <p>Mae Gwasanaeth Ieuenctid CBSC yn gweithio i sefydlu 2<sup>il</sup> Glwb Ieuenctid Cymraeg yn ardal Tref Caerffili.</p>	<p>Menter iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p> <p>Gwasanaeth Ieuenctid</p>
5.3	Datblygu ymgyrch ar y cyd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg presennol partneriaid megis llinellau ffôn, peiriannau hunanwasanaeth.	<p>Byddem yn hapus i weithio gyda'n gilydd ar yr ymgyrch hon, ac efallai y byddwn yn adeiladu ar, ac yn ehangu cyfeiriadur y Fenter iaith o fusnesau Cymraeg. Ystyried defnyddio <b>Dewis</b> lle bo'n berthnasol.</p> <p>Mae GGiD yn cofnodi ieithoedd a ddefnyddir mewn lleoliadau, grwpiau a gwasanaethau gofal plant ac yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael drwy'r wefan a thrwy ymholiadau gan y ddesg gymorth.</p>	<p>Polisi Corfforaethol</p> <p>GGiD</p>
5.4	Sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i staff i ddysgu'r iaith o lefel sylfaenol i uwch/rhuglder.	<p>Mae hyfforddiant iaith Gymraeg ar gael i staff mewnol. Rydym yn hyrwyddo'r cyrsiau a hysbysebir ar <a href="http://learnwelsh.cymru">learnwelsh.cymru</a> i bob partner allanol ac yn eu cysylltu â chymorth o Goleg Gwent.</p> <p>Rydym wedi bod yn darparu Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle i staff ers 2001 o lefel blasu i hyfedredd. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau ar lein megis 'Say Something in Welsh' a chwrs 10 awr ar-lein Cymraeg Gwaith. Mae'r cyrsiau yn cael eu cynnig mewn modd hyblyg ac am ddim gyda staff yn cael eu cefnogi i fynychu cyrsiau.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
5.5	Sefydlu hyrwyddo'r Gymraeg fel amcan cydnabyddedig i reolwyr fel eu bod yn medru darparu tystiolaeth o'r gwaith a gyflawnir i gynyddu'r nifer o weithwyr sy'n siarad Cymraeg ac i hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg	Mae Cynllun Gweithredu iaith Gymraeg ar waith.	Teuluoedd yn Gyntaf

5.6	Datblygu adnodd ac 'App' sy'n dangos yr holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws bywyd cymunedol.	<p>Yn dilyn llwyddiant cynhyrchu cyfeirlyfr o fusnesau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y Sir, mae Menter Caerffili wrthi'n ymchwilio i'r cyfleoedd i ddatblygu'r adnodd fel 'app' neu fersiwn rhyngweithiol, digidol ohoni. Fe fydd angen sicrhau cyllid digonol ar gyfer y gwaith hwn yn ogystal â chasglu adborth gan defnyddwyr presennol yr adnodd.</p> <p>Lansiodd Menter Iaith gyfeiriadur y gwnaethom gyfrannu ato. Mae'n rhoi gwybodaeth mewn un lle am ba wasanaethau sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol. Mae cynlluniau ar y gweill i wneud y cyfeiriadur yn electronig fel y gellir diweddarau'r manylion yn ôl yr angen.</p> <p>Fel 5.3</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p> <p>GGiD</p>
5.7	Hyrwyddo'r cyfleoedd i ddilyn gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol fel partneriaeth o fudiadau.	<p>Yn dilyn llwyddiant cynhyrchu cyfeirlyfr o fusnesau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y Sir, mae Menter Caerffili wrthi'n ymchwilio i'r cyfleoedd i ddatblygu'r adnodd fel 'app' neu fersiwn rhyngweithiol, digidol ohoni. Fe fydd angen sicrhau cyllid digonol ar gyfer y gwaith hwn yn ogystal â chasglu adborth gan defnyddwyr presennol yr adnodd.</p> <p>Rydym wedi bod yn hyrwyddo swyddi gyda'r cyngor yn nigwyddiad Sgil Iaith Sgil Gwaith Coleg y Cymoedd. Mae angen i ddisgyblion a myfyrwyr adnabod pa mor werthfawr yw'r Gymraeg wrth chwilio am swydd neu ddewis gyrfa. Cynnal trafodaethau ar hyn o bryd ynglŷn â chynnal ffair swyddi ar gyfer yr angen am siaradwyr Cymraeg mewn swyddi.</p>	<p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>



<b>Maes Strategol 6 – Y Seilwaith (Polisiâu ac Arferion)</b>	<b>Gweledigaeth: Bod cyrff a gwasanaethau yn integreiddio'r Gymraeg i bolisiâu a gweithgareddau.</b>
<b>Blaenoriaethau Strategol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y prosesau asesu effaith yn ystyried materion iaith Gymraeg yn unol â Safonau Iaith Gymraeg 88-90.</li> <li>Sicrhau bod arferion datblygu polisi'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Creu Polisi perthnasol</li> <li>Sicrhau y cynhelir adolygiad o'r Strategaeth hon ar ôl 5 mlynedd fel sy'n ofynnol o dan Safon 146.</li> </ul>	

6.1	Sefydlu'r Gymraeg fel rhan annatod o weithdrefnau/ymarferion ymgynghori (fel elfen i'w hystyried yn ogystal â'r mudiadau sy'n rhan o'r ymgynghori).	<p>Mae pob ymgynghoriad wedi bod ar gael yn Gymraeg neu rydym wedi gofyn am ddewis iaith y rhai sy'n eu cwblhau.</p> <p>Mae Menter Iaith Sir Caerffili eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor B.S.Caerffili er mwyn sicrhau fod siaradwyr Cymraeg y Sir yn medru cyfrannu at ymgynghoriadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae'r Fenter wedi cefnogi'r Panel Safbwynt, trwy gydlyn ac arwain panel cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, bu'r Fenter yn cefnogi'r broses o lunio'r Asesiad Lles a'r Cynllun Lles, trwy hwyluso sesiynau cyfrwng Cymraeg gyda'r cyhoedd. Byddwn yn parhau i gefnogi yn y modd hwn ac yn croesawu cyfleoedd pellach i gefnogi ymarferion ymgynghori Cyngor Caerffili.</p> <p>Rydym yn sicrhau fod adrannau yn creu ethos ymgynghori yn ddwyieithog ac yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau hynny. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Fenter Iaith sy'n helpu pan fyddwn yn rhedeg ymgynghoriadau fel ar wahanol bynciau. Rydym yn hapus i hwyluso'r digwyddiadau ac i gynnal bwrdd o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.</p>	<p>Teuluoedd yn Gyntaf</p> <p>Menter Iaith Caerffili</p> <p>Polisi Corfforaethol</p>
6.2	Sefydlu'r Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygu ac asesu effaith polisiâu arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.	O dan adran 6 o dempled adroddiadau'r Cyngor sef Goblygiadau Cydraddoldeb dylid ystyried yr iaith Gymraeg. Mae canllawiau ar gael i staff ar ein porthol a dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol am Safonau'r Gymraeg a'u hystyried wrth ysgrifennu polisiâu. Dylid sicrhau nad oes effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a bod y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.	Polisi Corfforaethol
6.3	Sefydlu ffactorau iaith Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygiadau cynllunio yn nhermau tai ac ehangu darpariaeth addysg, yn arbennig lleoedd addysg Gymraeg.		

6.4	Annog partneriaid ehangach i ystyried y Gymraeg fel rhan annatod o ddatblygu ac asesu effaith polisiau a gweithdrefnau arfaethedig.	Parhau i drafod gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn wedi ein helpu i godi ymwybyddiaeth o'r safonau.  Staff yr Urdd wedi ymwreiddio o fewn Fforwm Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid.	Teuluoedd yn Gyntaf  Gwasanaeth Ieuenctid
-----	---	---	---